Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth

Gwneud y gorau o brofiadau ymarferol o'r amgylchedd naturiol

Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth Rhif: 022/2007
Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2007

Dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth

Cynulleidfa

Penaethiaid ac athrawon pob ysgol a gynhelir yng Nghymru; Sefydliadau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon; Awdurdodau Lleol; Cyrff Anllywodraethol lleol a chenedlaethol a chyrff eraill yng Nghymru sy'n cynnig profiadau dysgu y tu allan i'r ysgol i bobl ifanc.

Trosolwg

Mae'r ddogfen wedi'i hanelu at fudiadau, cyrff, unigolion ac athrawon sy'n awyddus i annog pobl ifanc, trwy brofiadau ymarferol, i ddysgu am yr amgylchedd naturiol a'r dreftadaeth ddiwylliannol, i'w gwerthfawrogi a'u mwynhau.

Mwy o wybodaeth a chopïau ychwanegol

Paul Jones
Yr Is-adran Anghenion Ychwanegol a Chynhwysiant
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 1745
E-bost: esdgc@cymru.gsi.gov.uk

Dogfennau cysylltiedig

Strategaeth Amglcheddol ar gyfer Cymru: Cynllun Gweithredu Cyntaf, Mai 2006

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Cynllun Gweithredu, Medi 2006

Dod yn Athro Cymwysedig: Safon ar gyfer Statws Athro Cymwysedig, Hydref 2006

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

WWT

National Botanic Garden of Wales
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

YR YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL
THE NATIONAL TRUST

RSPB

Elusen Gofrestredig Cymru a Lloegr Rhif 207076

FSC
Bringing Environmental Understanding To All

Diolch i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac rspb-images.com am ddarparu'r lluniau ar gyfer y clawr.

G/223/07-08
ISBN 978 0 7504 4319 7

Hydref
CMK-22-07-234

Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2007

Cynnwys

	Tudalen
Pwysigrwydd Profiad Personol o'r Byd Naturiol	**3**
Y Cyfnod Sylfaen a'r Amgylchedd	**3**
Dysgu 'Y Tu allan i'r Ystafell Ddosbarth' ac Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF)	4
Gwerth ychwanegol dysgu 'Y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth'	**4**
Safonau Athro Cymwysedig a Dysgu 'Y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth'	**5**
Sbardun ar gyfer agweddau eraill	**5**
Cod ymarfer i ddarparwyr Dysgu y 'Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth'	6
Cyn yr ymweliad	6
Yr ymweliad ei hun	9
Yn dilyn yr ymweliad	11
Rhestr wirio i athrawon er mwyn asesu ansawdd	13
Astudiaethau achos	**15**
Cyngor Astudiaethau Maes - Orielton	15
Ysgol Goedwig Dyffryn	16
Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Garwnant	17
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, canolfan addysg Ystangbwll i ysgolion	17
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	18
Cyngor Cefn Gwlad Cymru	19
RSPB	19
Gwybodaeth bellach	**20**

Dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth
Hydref 2007
Dogfen rhif 022/2007

Crynodeb

Anelir y ddogfen hon at y sefydliadau, yr unigolion a'r athrawon hynny sy'n ceisio annog pobl ifanc i ddysgu am yr amgylchedd naturiol a threftadaeth ddiwylliannol a'u gwerthfawrogi a'u mwynhau, trwy brofiad personol. Fe'i hanelir hefyd at y darparwyr addysg allanol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, fel dogfen canllawiau arfer da.

Nod y canllawiau arfer da hyn yw cyflawni tri pheth:-

- Ysbrydoli athrawon i fynd â grwpiau allan o'r ysgol a chanfod manteision dysgu 'Y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth'
- Rhoi arweiniad i'r gwaith cynllunio angenrheidiol er mwyn trefnu ymweliadau diogel, effeithiol a phleserus
- Cynnig arweiniad ar sut i asesu ansawdd y darparwr ar gyfer eich ymweliad.

Hyd yma, prin fu'r canllawiau i athrawon i'w helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau, y rhai gwirioneddol neu'r rhai canfyddedig, rhag mynd â phlant allan o'r ystafell ddosbarth ac i elwa i'r eithaf ar werth dysgu trwy brofiad yn yr amgylchedd. Mae'r ddogfen canllawiau arfer da hon yn rhoi sylw i'r angen hwn ac yn cynnig cefnogaeth i athrawon sy'n awyddus i wneud defnydd helaethach o ddysgu 'Y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth'.

Pwysigrwydd Profiad Personol o'r Byd Naturiol

Bydd plant yn sicrhau eu dealltwriaeth mwyaf pwerus o'r amgylchedd naturiol drwy ei archwilio drostynt eu hunain.

Mae gwaith ymchwil i 'brofiadau bywyd arwyddocaol' sy'n pennu ein cysylltiad â'r amgylchedd, a'n hagweddau a'n gwerthoedd, yn datgelu mai cyswllt uniongyrchol cadarnhaol neu brofiad 'personol' sy'n cael yr effaith fwyaf (NFER, 2004). Ceir tystiolaeth hefyd sy'n dangos bod plant yn sicrhau eu dealltwriaeth mwyaf pwerus o'r amgylchedd naturiol drwy ei archwilio drostynt eu hunain. O fewn addysg ffurfiol, fodd bynnag, caiff athrawon eu rhwystro, yn aml iawn, rhag hwyluso'r broses hon o archwilio y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth gan bwysau'r cwricwlwm, pryderon ynghylch iechyd a diogelwch, diffyg hyder a chyfyngiadau cyllideb.

Yn baradocsaidd, y genhedlaeth hon, yn fwy na'r un genhedlaeth arall, a fydd angen yr ymwybyddiaeth amgylcheddol a'r ddinasyddiaeth a gaiff eu meithrin trwy archwilio a darganfod yn ystod plentyndod. Mae'r genhedlaeth hon yn debygol o wynebu'r sialensiau amgylcheddol anoddaf i gael eu hwynebu erioed gan y ddynoliaeth, mewn cyfnod o newid yn yr hinsawdd a'r pwysau cynyddol ar adnoddau naturiol. Ac eto, y teimlad cyffredinol yw fod plant y dyddiau hyn yn colli cyswllt gyda'r amgylchedd naturiol a threftadaeth ddiwylliannol ac, yn sgil hynny, gyda charreg sylfaen ar gyfer datblygiad cynaliadwy at y dyfodol.

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Y Cyfnod Sylfaen a'r Amgylchedd

Mae'r Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant yn datgan bod amgylcheddau o dan do ac yn yr awyr agored sy'n gyffrous, yn ysgogol ac yn ddiogel yn hyrwyddo datblygiad a chwilfrydedd naturiol plant i archwilio a dysgu trwy brofiadau personol. Dylai amgylchedd y Cyfnod Sylfaen hyrwyddo'r broses o ddarganfod a hybu annibyniaeth gan roi mwy o bwyslais ar ddefnyddio amgylchedd yr awyr agored fel adnodd ar gyfer dysgu plant.

Mae saith maes dysgu yng nghwricwlwm y Cyfnod Sylfaen: Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol; Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu, Datblygiad Mathemategol; Datblygu'r Gymraeg; Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd; Datblygiad Corfforol a Datblygiad Creadigol. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn cefnogi datblygiad plant a'u gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth. Oherwydd natur gyfannol y cwricwlwm, dylai dysgu yn yr awyr agored fynd rhagddo ym mhob un o'r saith maes yn feunyddiol bron iawn. Yn ogystal â defnyddio tir yr ysgol, mae'n bosibl mynd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth a defnyddio amgylcheddau ehangach a darparwyr allanol i ategu'r gwaith a wneir yn yr ysgol.

chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow
cyfnod sylfaen 3–7 foundation phase

Dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth
Hydref 2007
Dogfen rhif 022/2007

Dysgu 'Y Tu allan i'r Ystafell Ddosbarth' ac Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF)

Gall dysgu 'Y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth' fod yn gyswllt hanfodol rhwng agweddau damcaniaethol ADCDF a realiti'r materion sy'n effeithio ar ein patrymau byw at y dyfodol a'r byd naturiol o'n cwmpas.

Wrth i gymdeithas esblygu, ar lefel genedlaethol a byd-eang, caiff plant eu hannog yn fwy ac yn fwy i ystyried eu swyddogaethau o fewn y gymdeithas honno, fel ceidwaid a buddiolwyr yr amgylchedd. Mae'n ofynnol i ysgolion ddarparu ADCDF ac ABCh a gall dysgu 'Y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth' fod yn gyfraniad gwerthfawr. Mae'r awyr agored yn gyfrwng pwerus iawn i gyrraedd y tu hwnt i ffeithiau a ffigurau. Trwy fod yn yr awyr agored, a gweithio gyda phethau byw yn eu hamgylchedd, gall plant ddechrau deall sut mae'r byd naturiol yn gweithio, a datblygu'r agweddau, y gwerthoedd a'r ymrwymiad angenrheidiol i gefnogi newid poblogaidd a chynaliadwy a'n symud un cam yn nes at fod yn Gymru gynaliadwy.

Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Dangoswyd bod dysgu yn yr awyr agored yn cael effaith ehangach na'r pwnc a gaiff ei astudio yn ystod yr ymweliad.

O'i ddefnyddio mewn ffordd effeithiol, gall dysgu 'Y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth' fod yn ddull pwysig o greu 'dinasyddion mwy diwyd a chynaliadwy', sy'n gallu sylweddoli bod y problemau a wynebant yn gymhleth a bod yr atebion yn debygol o fod yn llwyd, yn hytrach nag yn ddu neu'n wyn.

Gwerth ychwanegol dysgu 'Y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth'

Rhoddir cydnabyddiaeth gynyddol i werth dysgu yn yr awyr agored - nid yn unig gydag astudiaethau maes daearyddol neu wyddonol - ond hefyd o ran datblygiad personol ehangach a chyflawniad academaidd plant. Dangoswyd bod dysgu yn yr awyr agored yn cael effaith ehangach na'r pwnc a gaiff ei astudio yn ystod yr ymweliad (NFER, 2004). Yr oedd sgiliau trosglwyddadwy fel meddwl annibynnol, cymhelliant, rheoli amser, cyfathrebu, gweithio mewn tîm a barn broffesiynol hefyd yn cael eu meithrin. Ymhellach, canfyddwyd bod sgiliau cymdeithasu a datblygiad personol fel lles ac ymddiriedaeth, parch tuag at yr amgylchedd ac integreiddio cymdeithasol, yn cynyddu yn sgil cyfranogi mewn dysgu yn yr awyr agored.

Gwerth ychwanegol dysgu yn yr awyr agored yw datblygu myfyrwyr a chanddynt brofiad a sgiliau mwy cyflawn, sy'n fwy abl i ddelio gyda phroblemau'r byd go iawn ac sydd â gwell ymwybyddiaeth o gymuned a'r amgylchedd.

Safonau Athro Cymwysedig a Dysgu 'Y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth'

Datganiadau sy'n seiliedig ar ganlyniadau yw Safonau SAC. Maent yn gosod allan yr hyn y mae'n rhaid i'r hyfforddeion ei wybod, ei ddeall a gallu ei wneud ar ôl cwblhau cwrs o hyfforddiant cychwynnol athrawon neu raglen ar sail cyflogaeth i sicrhau SAC. Gweithredir y safonau SAC newydd ar sail orfodol o 1 Medi 2007 ymlaen. Fel rhan o'r rhain, mae safon SAC S3.1.5 yn ei gwneud yn ofynnol i hyfforddeion ddangos, fel ag y bo'n berthnasol i'r ystod oedran y cawsant eu hyfforddi i'w dysgu, eu bod yn gallu cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu mewn cyd-destunau y tu-allan-i'r-ysgol, fel ymweliadau ysgol, amgueddfeydd, theatrau, gwaith maes a lleoliadau ar sail cyflogaeth, gyda help aelodau staff eraill, pan fo'n briodol.

Mae'r Safon hon yn cydnabod y gall disgyblion ddysgu mewn modd gwerthfawr mewn amrediad eang o gyd-destunau y tu-allan-i'r-ysgol a bod angen i athrawon gynllunio er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r cyfleoedd hyn ar gyfer dysgu, a sylweddoli'r gwerth ychwanegol a ddaw yn eu sgil. I fodloni'r Safon hon, dengys canllawiau'r Cynulliad y bydd yn rhaid i hyfforddeion ddangos y gallant, gyda help aelodau staff eraill pan fo'n briodol, adnabod rhai cyfleoedd dysgu y-tu-allan-i'r-ysgol sy'n berthnasol i'r amcanion dysgu a fwriedir a'r ystod oedran y maent yn paratoi i'w dysgu. Nid oes raid iddynt, o anghenraid, drefnu ymweliad ond bydd angen iddynt ddangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o faterion iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i ddysgu mewn cyd-destunau y tu-allan-i'r-ysgol. Mae'r canllawiau arfer da hyn yn cynnig rhywfaint o help ymarferol fel y gall cynllunio ddangos y byddid yn elwa i'r eithaf ar ymweliad y tu allan i'r ystafell ddosbarth, bod y cynllunio yn effeithlon ac yn gyflawn, a bod gwerth addysgol yr ymweliad a fwriedir yn cael ei osod mewn cyd-destun ehangach.

Mae safon SAC S3.1.5 yn ei gwneud yn ofynnol i hyfforddeion ddangos eu bod yn gallu cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu mewn cyd-destunau y tu-allan-i'r-ysgol.

Sbardun ar gyfer agweddau eraill

Mae mynd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth a chael profiad uniongyrchol o'r amgylchedd yn cyffwrdd ag agweddau eraill ar ddysgu fel chwaraeon awyr agored ac addysg byw'n iach. Gall un ddisgyblaeth arwain at ddisgyblaeth arall, ei hategu, neu fod yn sbardun ati. Mae canllawiau a pholisïau penodol yn bodoli i gefnogi'r agweddau ychwanegol hyn (Dringo'n Uwch a Menter Ysgolion Iach, Cynllun Gweithredu Bwyd a Ffitrwydd). Nid yw'r ddogfen hon yn ceisio ymdrin â'r agweddau ehangach hyn sy'n gysylltiedig ond yn hytrach, mae'n darparu gwybodaeth lawn ynghylch cynllunio, ysbrydoli a manteision mynd â grwpiau y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth i amgylcheddau ehangach Cymru.

Dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth
Hydref 2007
Dogfen rhif 022/2007

Dysgu 'Y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth': Dewis darparwr o ansawdd da

Cod ymarfer i ddarparwyr Dysgu y 'Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth'

Dylai'r ymweliad fod yn ysbrydoledig, yn gynhwysol ac yn gyfranogol. Dylai'r plant, allu ymroi'n llwyr i'r diwrnod a chael profiad diogel, bywiog a hwyliog.

Dylai ymweliadau 'Y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth' fod o ansawdd dibynadwy sy'n gyson uchel.

I'r staff addysgu - dylai'r ymweliad roi mewnbwn addysgu arbenigol ac ysbrydoledig ychwanegol iddynt, a dylent fod yn ffyddiog ynghylch ansawdd a diogelwch y lleoliad a phroffesiynoldeb y staff sy'n arwain yr ymweliad.

I'r plant - dylai'r ymweliad fod yn ysbrydoledig, yn gynhwysol ac yn gyfranogol. Dylai'r plant, yn ystod yr ymweliad, allu ymroi'n llwyr i'r diwrnod a chael profiad diogel, bywiog a hwyliog. Dylai'r ymweliad 'Y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth' fod yn berthnasol, yn symbylol ac yn ysgogiad i'r meddwl, gan roi llu o gyfleoedd ar gyfer gwaith dilyn i fyny, atgofion cadarnhaol a gwell dealltwriaeth.

I'r darparwr - dylent fod yn ffyddiog fod yr athrawon a'r plant sy'n ymweld wedi paratoi eu hunain yn drylwyr ar gyfer y profiad ac yn gwybod beth i'w ddisgwyl er mwyn iddynt allu cyfranogi'n llawn a manteisio i'r eithaf.

Er mwyn gweithio tuag at gyflawni'r nodau hyn, mae'r cod ymarfer canlynol yn cynnig canllawiau arfer da, a chymorth penodol i athrawon sy'n ymweld i asesu addasrwydd lleoliadau a darparwyr.

Caiff y Cod Ymarfer ei rannu'n 3 adran: cyn yr ymweliad; yr ymweliad ei hun; ac yn dilyn yr ymweliad.



Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

1. Cyn yr Ymweliad : Cynllunio, gwaith gweinyddol a pharatoi

Mae cynllunio ymlaen llaw yn sicrhau y bydd profiad 'Y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth' yn cyd-fynd â'r cyd-destun dysgu ehangach ac yn sicrhau bod y diwrnod yn mynd rhagddo yn ôl y bwriad bob parti, gan gyflawni'r amcanion y cytunwyd arnynt ymlaen llaw a sicrhau diogelwch i bawb.

Dylai darparwr o ansawdd da …

Sicrhau cyd-ddealltwriaeth o gyfrifoldebau

Cyn i'r ymweliad ddechrau, dylai'r darparwr a'r grŵp sy'n ymweld ddod i gytundeb ynghylch:

- amseriad yr ymweliad (amser cyrraedd, gadael, hyd yr amser cyswllt a threfniadau cinio os oes angen). Bydd hyn yn caniatáu i bob parti wneud eu trefniadau eu hunain ynghylch y modd gorau iddynt ddefnyddio'r amser yn ystod yr ymweliad i gyd-fynd ag anghenion y disgyblion ac arweinydd y grŵp.
- natur yr amser cyswllt rhwng y darparwr a'r staff addysgu sy'n ymweld. Mae hyn yn cynnwys iaith y cyflwyniad, ei hyd, ei gynnwys ac a fydd y cyswllt ar ddechrau, yng nghanol neu ar ddiwedd yr ymweliad neu drwy gydol yr amser y bydd y grŵp ar y safle.
- cyfarwyddiadau i'r safle a chyfarwyddiadau ar gyfer parcio coetsis (os oes rhai), amser dychwelyd i'r coetsis.
- cyfrifoldebau dros ddisgyblaeth, cymarebau oedolyn a phlentyn a rôl yr oedolion yn ystod yr ymweliad. O ran diogelwch, cyfrifoldeb y grŵp sy'n ymweld yw'r gymhareb oedolyn a phlentyn ac fe'u cynghorir i lynu wrth ganllawiau perthnasol yr awdurdod lleol. Ni ddylid cynnwys staff y safle o fewn y cymarebau hyn er mwyn caniatáu y gellir gweithredu gweithdrefnau'n effeithiol ar y safle os yw plentyn ar goll neu ddamwain yn digwydd.
- anghenion dillad ac offer ar gyfer yr ymweliad.
- canllawiau ynghylch yr hyn y mae'r darparwr yn ei ddisgwyl gan y grŵp sy'n ymweld (y polisi ynghylch defnyddio ffonau symudol, disgyblaeth, rôl y staff sy'n ymweld a'r chynorthwywyr, caniatâd i dynnu lluniau ac ati.)
- cymorth cyntaf, yswiriant ac unrhyw bolisïau penodol eraill sy'n berthnasol i'r gweithgaredd neu i reoliadau awdurdodau lleol penodol.
- unrhyw ofynion ychwanegol ynghylch anghenion addysgol arbennig unrhyw aelodau ymhlith y disgyblion sy'n ymweld.

rspb-images.com

Cytuno ar ganlyniadau dysgu

Dylai'r grŵp sy'n ymweld a'r darparwyr gytuno ar ganlyniadau dysgu ar y cyd, cyn y sesiwn. Yn ddelfrydol, yn enwedig yn achos defnyddiwr tro cyntaf, gwneid hynny trwy fod yr athro/athrawes yn ymweld â'r lleoliad ymlaen llaw ac yn trafod gyda'r sefydliad sy'n darparu. Fodd bynnag, os nad yw ymweliad ymlaen llaw yn

bosibl, dylid trafod dros y ffôn, defnyddio gwefan y darparwr, neu ddefnyddio'r deunyddiau a gaiff yr athro/athrawes sy'n ymweld gan y darparwr allanol. Dylai'r cysylltiadau fod yn glir, os oes rhai, rhwng y gweithgarwch a'r cwricwlwm cenedlaethol neu gyrsiau arholiad. Dylai tystiolaeth o'r cysylltiadau hyn fod ar gael gan y darparwr cyn yr ymweliad, os yw'r athro/athrawes sy'n ymweld yn gofyn am y dystiolaeth honno.

Gellid darparu gwybodaeth i'r plant i'w darllen hefyd er mwyn iddynt hwy fod yn barod am yr ymweliad, gan gynnwys ymwybyddiaeth o unrhyw faterion a gwerthoedd diwylliannol, cymdeithasol neu ffordd o fyw sy'n ymwneud â'r ardal y maent yn ymweld â hi.

Rhoi cyd-destun i'r diwrnod

Dylai'r canlyniadau dysgu cytunedig ar gyfer yr ymweliad gynnwys cyfeiriad at agweddau ehangach fel y cyd-destun diwylliannol, goblygiadau hanesyddol neu faterion amgylcheddol, sy'n berthnasol i'r myfyriwr. Wrth gyflwyno a chrynhoi'r diwrnod, dylid gosod yr ymweliad yn ei gyd-destun i'r myfyriwr a dechrau trafodaeth ynghylch sut i barhau un neu ragor o'r themâu hyn oddi wth y safle.

Dylai'r canlyniadau dysgu cytunedig ar gyfer yr ymweliad gynnwys cyfeiriad at agweddau ehangach fel cyd-destun diwylliannol, goblygiadau hanesyddol neu faterion amgylcheddol

Sicrhau Iechyd a Diogelwch

Dylai'r darparwr sicrhau bod digon o wybodaeth ar gael er mwyn caniatáu i'r staff sy'n ymweld gwblhau asesiad risg ar gyfer y safle a'r gweithgareddau cyn yr ymweliad ei hun. Dylai'r darparwr hefyd sicrhau, os ceir cais amdanynt, fod ei bolisïau ar gyfer argyfyngau, fel damweiniau, plant ar goll ac ati, a'r polisi amddiffyn plant, ar gael. Dylai darparwr o ansawdd da hefyd ddarparu ar gyfer cyfathrebu dros y ffôn neu radio mewn achos o argyfwng. Dylent sicrhau fod y grŵp sy'n ymweld yn glynu wrth ganllawiau perthnasol yr AALl o ran cymhareb athro a disgybl, a chytuno gyda'r grŵp sy'n ymweld fod y gweithgareddau a gynlluniwyd yn addas i'r grŵp oedran dan sylw.

Mae llawer iawn o ddeunydd iechyd a diogelwch ar gael i staff addysgu i'w galluogi i ymdrin yn llawn â'r agwedd hon wrth gynllunio. Man cychwyn da fyddai swyddogion iechyd a diogelwch yr awdurdod lleol. Yng Nghymru, mae model 'Gwybodaeth am Ddiogelwch' generig ar gael i leoliadau dan reolaeth i'w cynorthwyo i ddarparu gwybodaeth briodol i ysgolion. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â swyddog iechyd a diogelwch eich awdurdod lleol neu'ch cydlynydd ymweliadau addysgol.

Sicrwydd Yswiriant Digonol

Dylai pob darparwr o ansawdd da sicrhau lefel briodol o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus neu ddull arall o dalu unrhyw hawliad atebolrwydd cyfreithlon, a sicrhau bod gwybodaeth glir ynghylch sicrwydd eu hyswiriant ar gael i grwpiau sy'n ymweld, os gwnânt gais i'w gweld.

Darpariaeth Cymorth Cyntaf

Dylai lefel briodol o ddarpariaeth cymorth cyntaf fod ar gael ar y safle yn unol â'r asesiad risg.

Agweddau ar ddiogelwch a lles plant

rspb-images.com

Dylai pob darparwr sicrhau fod pob aelod staff sy'n gweithio gyda'r grŵp wedi'u hyfforddi'n llawn at y diben hwn. Dylent fod yn wybodus, yn garedig at blant ac wedi bod yn destun archwiliad y CRB ar lefel sylfaenol neu fanylach, fel ag y bo'n briodol.

Mynediad i bawb ac anghenion addysgol arbennig

Dylai'r safle sicrhau fod grwpiau'n ymwybodol o'i bolisi ynghylch mynediad i bawb. Dylai hyn fod yn rhan o'r trafodaethau ynghylch yr ymweliad er mwyn sicrhau y darperir ar gyfer pob cyfranogwr ac nad oes unrhyw sefyllfa annisgwyl yn codi ar y diwrnod.

2. Yn ystod yr ymweliad: Cynnwys addysgol ac arddull addysgu

Mae ymweliad 'Y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth' o safon yn ei gwneud yn bosibl ymestyn a datblygu pwnc cwricwlaidd; cyflawni gwaith caled sy'n rhoi boddhad, neu ganiatáu gwahanol arddulliau addysgu er mwyn cynnwys y plant mewn gwahanol ffyrdd.

Dylai darparwr o ansawdd da ….

Gynyddu canran y diwrnod a gaiff ei threulio yn yr awyr agored

Dylid treulio rhan helaethaf yr ymweliad ar ganlyniadau dysgu sy'n derbyn blaenoriaeth ac yn ddelfrydol, yn yr awyr agored (os yw'r tywydd yn caniatáu).

Cyflwyno'r diwrnod i'r grŵp

Dylai cyflwyniad y darparwr i'r grŵp gynnwys rheolau clir er mwyn i bawb fod yn ymwybodol o'r disgwyliadau, yr ystyriaethau iechyd a diogelwch ac unrhyw faterion sy'n benodol i'r safle. Dylent gyflwyno'r grŵp i'r hyn y maent am ei wneud yn ystod yr ymweliad a chyflwyno'r cefndir ar gyfer y diwrnod. Gellid hefyd darparu hyn i'r grŵp sy'n ymweld ymlaen llaw trwy gyfrwng deunydd cyn-ymweliad.

Defnyddio cymhareb disgybl ac arweinydd isel

Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Dylai naws yr ymweliad fod yn un sy'n annog proses o ymchwilio, cynnwys y grŵp cyfan, ac ysgogi'r dychymyg. Bydd cymhareb maint grŵp/arweinydd yn dylanwadu ar yr arddulliau addysgu y gellir eu defnyddio. Bydd cymhareb (arweinydd: disgybl uchel) dda yn helpu i sicrhau y cyflawnir y canlyniadau dysgu cytunedig mewn modd effeithiol. Bydd cyfranogiad brwd yr athrawon a'r oedolion eraill sydd yno yn cyfoethogi'r ymweliad.

Dylai darparwyr ymdrechu i annog ymdeimlad o ryfeddod yn y lleoliad.

Darparu ar gyfer gwahanol arddulliau dysgu

Dylai'r darparwyr dysgu roi sylw i ddarparu ar gyfer gwahanol arddulliau dysgu o fewn eu rhaglenni er mwyn sicrhau fod pob plentyn wedi ymgysylltu, yn dangos diddordeb ac yn cymryd rhan yn y gweithgareddau. Dylai'r plant gyfrannu'n frwd yn hytrach na gwrando ar yr arweinydd yn siarad am yr amgylchedd. Dylai'r amser cyswllt gyda'r darparwr ganolbwyntio ar gael y plant i ymchwilio, archwilio ac ymroi i dasgau ymarferol.

Rheoli egni'r grŵp

Bydd gwahanol grwpiau yn gweithio ar wahanol gyflymdra, a gall hyn newid yn ystod yr ymweliad. Bydd ymweliad o ansawdd da yn rhoi ystyriaeth i newidiadau mewn cyflymdra - megis caniatáu ar gyfer chwarae adeiladol yn ystod amser cinio neu wedyn, neu ddyrannu amser o fewn rhaglen i grwpiau iau ollwng stêm neu i ganiatáu i grwpiau hŷn bwyso a mesur yr hyn y maent yn ei ddysgu neu lle maen nhw. Mae angen i'r darparwr sicrhau fod lle addas ar gael yn y lleoliad i ganiatáu i hyn fod yn rhan o'r diwrnod.

Dwyn sylw at ryfeddod y lleoliad a'r gweithgarwch

Dylai darparwyr ymdrechu i annog, ymysg y myfyrwyr, ymdeimlad o ryfeddod yn y lleoliad, y profiad neu'r canlyniadau gan anelu at i bob grŵp adael gyda gwerthfawrogiad o rinweddau arbennig y lleoliad.

Asesu effaith eu gweithgareddau ar yr amgylchedd

Dylai darparwr o ansawdd da roi sylw dyledus i'r effaith a gaiff y gweithgareddau a gynhaliant ar yr amgylchedd. Gellid cyflawni hyn trwy

- Gylchdroi lleoliad yr ymweliad addysgol: Cymryd camau i gyfyngu ar niwed hirdymor naill ai trwy gylchdroi safleoedd, addasu gweithgareddau ar rai adegau o'r flwyddyn neu trwy roi seilwaith priodol yn ei le.
- Gweithredu system archebu er mwyn lledaenu'r llwyth neu'r pwysau pan fydd nifer fawr o fyfyrwyr a goruchwylwyr yn ymweld ar unrhyw un adeg.
- Gallai'r darparwr weithio tuag at sicrhau achrediad priodol fel statws y ddraig werdd, neu eco-ganolfan ar gyfer eu gweithrediadau.

Yn ddelfrydol, ni ddylai'r ymweliad fod wedi'i ynysu oddi wrth waith arall yn yr ysgol a dylid pwyso a mesur yr ymweliad a'i ddefnyddio ar ôl i'r myfyrwyr ddychwelyd i'r ysgol

Sicrhau seilwaith priodol

Dylai darparwr o ansawdd da sicrhau bod y cyfleusterau canlynol ar gael i'w defnyddio ar ryw adeg neu'i gilydd yn ystod yr ymweliad pe bai angen

- Toiledau at ddefnydd yr ysgol gan gynnwys cyfleusterau golchi dwylo
- Rhywfaint o gysgod rhag tywydd eithafol - tywydd poeth neu oer a thywydd gwlyb. Gallai'r cysgod fod ar ffurf adeilad/cysgodfan ffurfiol neu le i gysgodi dan goed rhag yr haul
- Mynedfa ddiogel wrth gyrraedd neu adael y safle
- Darpariaeth o offer safonol a gaiff ei gynnal a'i gadw
- Mynedfa yn unol â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd os yw'n bosibl.

3. Yn dilyn yr ymweliad: rhoi syniadau ar gyfer dysgu at y dyfodol

Ymestyn yr ymweliad

Dylai darparwr o ansawdd da gynnig cyfleoedd sy'n ymestyn y tu hwnt i'r ymweliad a gweithio tuag at edrych ar y profiad fel rhan o raglen waith integredig, sydd wedi'i rhagweld a'i chynllunio ac a gaiff ei defnyddio, o ganlyniad, yn ôl yn yr ysgol. Yn ddelfrydol, ni ddylai'r ymweliad fod wedi'i ynysu oddi wrth waith arall yn

yr ysgol a dylid pwyso a mesur yr ymweliad a'i ddefnyddio ar ôl i'r myfyrwyr ddychwelyd i'r ysgol. Bydd darparwr o ansawdd da yn cynnig awgrymiadau, gweithgareddau a deunyddiau, os yw hynny'n bosibl, i alluogi athrawon i gyflawni hyn.

Darparu Sicrwydd Ansawdd

Dylai darparwr o ansawdd da fod yn gweithio i sicrhau fod arfarnu eu cynllun yn rhan annatod o'r broses. Mae arfarnu cynllun gan gyfranogwyr yn elfen werthfawr a hanfodol o sicrhau ansawdd da. Dylai darparwr o ansawdd da sicrhau y gofynnir i gyfranogwyr am adborth a bod hyn yn elfen bwysig ym mhob ymweliad. Yna, dylai'r darparwr ddefnyddio adborth adeiladol i ddatblygu ymhellach y ddarpariaeth pan fo hynny'n gymwys a phan fo arian yn caniatáu.

Asesu'r effaith addysgol

Yn dilyn yr ymweliad, dylai athrawon gloriannu drostynt eu hunain beth fu pwysigrwydd yr ymweliad 'Y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth'. Wnaeth yr ymweliad gyflawni'r canlyniadau dysgu a fwriadwyd? Beth oedd y gwerth ychwanegol o fod wedi cynnal yr ymweliad? Sut gallant rannu'r arfer da hwn gydag eraill yn yr ysgol a thu hwnt? Sut maent yn mynd i adlewyrchu'r effaith o fewn eu gwaith monitro a chofnodi eu hunain?

Sut ydych chi'n adnabod darparwr Dysgu 'Y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth' 'o ansawdd da'?

Rhestr wirio i athrawon er mwyn asesu ansawdd

Dylai'r rhestr wirio hon gael ei darllen ochr yn ochr â'r cod ymarfer i ddarparwyr

Cyn yr ymweliad - Cynllunio, gwaith gweinyddol a pharatoi	Sgôr 1 Isaf	2	3	4	5 Uchaf
Cyflawni cyd-ddealltwriaeth o gyfrifoldebau					
• A yw amseriad yr ymweliad yn addas i chi?	1	2	3	4	5
• A yw natur yr amser cyswllt yn addas i'ch anghenion?	1	2	3	4	5
• A oes angen i chi ddod â dillad ac offer arbennig?	1	2	3	4	5
• A oes angen polisïau arbennig ar gyfer y gweithgarwch?	1	2	3	4	5
Cytuno ar ganlyniadau dysgu					
• Allwch chi drefnu ymweliad ymlaen llaw?	1	2	3	4	5
• A oes deunyddiau ar gael cyn yr ymweliad i helpu gyda'r gwaith o baratoi cynlluniau ac addysgu?	1	2	3	4	5
• A oes cysylltiadau rhwng y gweithgareddau a drefnwyd a'r cwricwlwm cenedlaethol? A yw'r rhain yn cyd-fynd â'r cynllun addysgu?	1	2	3	4	5
• A oes gwybodaeth y gellid ei chynnig i'r plant i'w darllen er mwyn iddynt fod wedi'u paratoi ar gyfer yr ymweliad.	1	2	3	4	5
Rhoi Cyd-destun i'r Diwrnod					
• Pa gysylltiadau a wna'r darparwr rhwng eu meysydd arbenigol a'r byd ehangach.	1	2	3	4	5
• Sut caiff cysylltiadau eu llunio rhwng yr ymweliad a gwaith dilyn i fyny oddi ar y safle?	1	2	3	4	5
Sicrhau Iechyd a Diogelwch					
• A roddwyd digon o wybodaeth i'ch galluogi chi i lunio asesiad risg sy'n briodol ar gyfer eich grŵp chi ac i'r holl weithgareddau a ragwelir?	1	2	3	4	5
• A oes gweithdrefnau argyfwng wedi'u sefydlu ar gyfer plentyn sydd ar goll neu ddamweiniau?	1	2	3	4	5
Sicrwydd Yswiriant Digonol					
• A yw'r darparwr wedi trefnu lefel briodol o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, neu a oes ganddynt drefniant gwahanol i yswiriant masnachol a bod digon o sicrwydd i ad-dalu hawliadau cyfreithlon?	1	2	3	4	5
Darpariaeth Cymorth Cyntaf					
• A yw'r staff sy'n gysylltiedig â'm grŵp i wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf?	1	2	3	4	5
Agweddau ar Ddiogelwch a Lles Plant					
• A yw'r staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i weithio gyda phlant?	1	2	3	4	5
• A oes gan y darparwr bolisi amddiffyn plant ysgrifenedig sy'n cydymffurfio â gweithdrefnau'r Pwyllgor Ardal Amddiffyn Plant/ y Bwrdd Lleol Diogelu Plant?	1	2	3	4	5
• A fuont yn destun archwiliad CRB neu archwiliad trwy gynllun â chydnabyddiaeth gydradd?	1	2	3	4	5

	Sgôr 1 2 3 4 5 Isaf.....Uchaf
Mynediad i bawb • A yw'r safle'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd yn eich grŵp chi?	1 2 3 4 5
Yn ystod yr Ymweliad - Cynnwys addysgol ac arddull addysgu	
Cynyddu canran y diwrnod a gaiff ei threulio yn yr awyr agored • A fydd y grŵp yn treulio'r rhan helaethaf o'r diwrnod yn yr awyr agored?	1 2 3 4 5
Cyflwyno'r diwrnod i'r grŵp • A oes rheolau sylfaenol wedi'u cyflwyno'n glir i'r grŵp?	1 2 3 4 5
Cymhareb arweinydd a disgybl • A yw'r darparwr yn defnyddio cymhareb arweinydd a disgybl uchel?	1 2 3 4 5
Darparu ar gyfer gwahanol arddulliau dysgu • Am ba ganran o'r ymweliad y bydd y grŵp yn chwarae rhan weithredol? • A yw hwn yn arddull briodol i'r grŵp? • A ddefnyddir amrywiaeth o ddulliau i gyd-fynd â gwahanol arddulliau dysgu?	1 2 3 4 5 1 2 3 4 5 1 2 3 4 5
Rheoli egni'r grŵp • A yw'r ymweliad yn cynnwys adegau tawel, ac adegau i 'ollwng stêm', amser i fyfyrio ac i unigolion?	1 2 3 4 5
Dwyn sylw at ryfeddod y lleoliad a'r gweithgarwch • Beth yw'r agwedd fwyaf cofiadwy i grwpiau yn ystod ymweliadau â'ch safle? Neu yn ystod gweithgareddau gyda'ch staff?	1 2 3 4 5
Asesu'r effaith ar yr amgylchedd • A roddir sylw dyledus i sicrhau nad yw'r gweithgareddau ar y safle'n cael unrhyw effaith barhaol ar yr amgylchedd?	1 2 3 4 5
Sicrhau seilwaith priodol A yw'r safle'n cynnig y canlynol:- • Toiledau at ddefnydd yr ysgol gan gynnwys cyfleusterau golchi dwylo • Rhywfaint o gysgod rhag tywydd eithafol • Mynedfa ddiogel wrth gyrraedd neu adael y safle • Mynedfa yn unol â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd?	1 2 3 4 5 1 2 3 4 5 1 2 3 4 5 1 2 3 4 5
Yn dilyn yr Ymweliad: rhoi syniadau ar gyfer dysgu at y dyfodol	
Ymestyn yr ymweliad • Pa ddeunyddiau, gweithgareddau neu awgrymiadau y mae'r darparwr yn eu cyflenwi i ymestyn yr ymweliad ar ôl dychwelyd i'r ystafell ddosbarth?	1 2 3 4 5
Darparu Sicrwydd Ansawdd • A yw'r darparwr yn gweithredu proses arfarnu fel mater o drefn? • A oes adborth ar gael i ddarpar gleientiaid?	1 2 3 4 5 1 2 3 4 5

Astudiaethau achos

Astudiaeth Achos: Rhoi anadl bywyd i'r cwricwlwm

Mae'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr yng Nghyngor Astudiaethau Maes Orielton rhwng 16 a 18 oed, ac yn astudio bywydeg neu ddaearyddiaeth. Nid yw llawer ohonynt wedi gwneud ond ychydig iawn o waith maes, neu ddim o gwbl, cyn iddynt gyrraedd, ac er eu bod wedi teithio'n helaeth yn rhyngwladol, mae'n syndod cyn lleied ohonynt sydd â phrofiad o'r DU ar wahân i gynefin eu cartrefi.

Mae'r myfyrwyr yn gweithio'n nodweddiadol mewn amrywiaeth o gynefinoedd gan gynnwys traethau creigiog, dŵr croyw, coetir a thwyni tywod, cyn dethol un cynefin i'w astudio'n fanylach. Mae'r gromlin ddysgu yn un serth iawn - mae llawer ohonynt yn anghyfarwydd gyda phlanhigion cyffredin Prydain hyd yn oed. Fodd bynnag, gyda help arbenigol, buan iawn y maent yn dysgu technegau samplo ac adnabod gan ddefnyddio allwedd, yn ogystal â'r sgil bwysig o asesu risgiau safle. Mae llwyddiant yn dibynnu ar ganolbwyntio ar y gwaith dan sylw ac ar waith tîm ac, yn aml iawn, mae myfyrwyr sy'n ymdrechu i lwyddo yn yr ystafell ddosbarth yn disgleirio mewn lleoliad mwy ymarferol.

Ysgolion y Goedwig diolch i Jay Williams

Mae'r cyfle i dreulio cyfnodau estynedig o amser yn canolbwyntio ar un cynefin, ac i weld darn o waith drwodd i'w derfyn mewn un diwrnod, yn helpu myfyrwyr i gyflawni gwell dealltwriaeth o'r byd naturiol. Buan iawn y dônt yn hen law ar y sgiliau a'r technegau nad oeddent ond wedi darllen amdanynt o'r blaen, a datblygu ymchwiliadau soffistigedig ar gyfer gwaith cwrs, ymhell y tu hwnt i'w gallu ar ddechrau eu sesiwn gwaith maes.

Cyngor Astudiaethau Maes - Orielton

Astudiaeth Achos: Meithrin perthynas gyda'r amgylchedd

Saif ein hysgol ni ger coetir a oedd gynt yn rhan o Ystad Tŷ Tredegar. Caiff ward Parc Tredegar ei chydnabod fel yr un â'r lefelau uchaf o amddifadedd o ran plant ac incwm yng Nghymru (Mynegai Amddifadedd Lluosog, Cynulliad Cenedlaethol Cymru). Cafwyd canfyddiad negyddol iawn o'r goedwig ymysg y gymuned.

Mae Cyswllt Cymuned Dyffryn yn gweithio'n galed i adfer y coetir at ddefnydd pobl leol. Yr oedd yr ysgol yn awyddus iawn i fanteisio ar y coetir er mwyn cyfoethogi dysg a datblygiad eu disgyblion trwy 'Ysgol y Goedwig'.

Teimlai'r staff mai ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd gan lawer o'n plant ifanc o'r risgiau sydd o'u cwmpas. Mae llawer o rieni'n ceisio creu amgylchedd di-risg a byth yn eu gadael allan o'u golwg, ond

mae hyn yn gadael plant heb y sgiliau i reoli risgiau ac yn ei gwneud yn anodd iddynt farnu sefyllfaoedd drostynt eu hunain. Mae Ysgol y Goedwig yn caniatáu i oedolion rannu eu sgiliau eu hunain gyda phlant ifanc ac yn dysgu gwersi pwysig iddynt am ddiogelwch mewn amgylchedd llawn gofal a dan oruchwyliaeth nad yw wedi'i gau i ffwrdd rhag y byd o'i gwmpas.

Mae'r plant wrth eu boddau yn yr awyr agored, maent yn dysgu llawer iawn am eu hamgylchedd ond, uwchlaw popeth, maent yn cael hwyl!!!

Dechreuodd Ysgol Goedwig Dyffryn gyda chefnogaeth y Comisiwn Coedwigaeth a Groundwork Caerffili. Mae dull Ysgolion y Goedwig o weithredu yn annog gwerthfawrogiad o'r byd naturiol ac yn meithrin hunan-barch a hyder. Mae'r plant, sydd rhwng 3 a 6 oed, yn ymweld â'r goedwig am ddwy awr bob wythnos, glaw neu hindda, ac maent yn dysgu am gysyniadau cymhleth fel bioamrywiaeth a gwarchod yr amgylchedd mewn ffordd hwyliog a dychmygus.

Mae Ysgol y Goedwig yn caniatáu i'n plant ifanc archwilio a dysgu am y byd o'u cwmpas a mynd i'r afael â sialensiau newydd. Mae'r plant wrth eu boddau yn yr awyr agored, maent yn dysgu llawer iawn am eu hamgylchedd ond, uwchlaw popeth, maent yn cael hwyl!!!

Ysgol Goedwig Dyffryn

Astudiaeth Achos: Hwyl, Sbri a Dysgu yn y Goedwig

Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Mae sicrhau bod ymweliad yn arwain at ganlyniadau dysgu pendant, yn symud yn ôl y cyflymdra cywir, yn darparu ar gyfer amrywiaeth o arddulliau dysgu ac yn hwyliog yn gallu bod yn dipyn o her ar adegau!

Mae Canolfan Coedwig Garwnant, dan reolaeth Comisiwn Coedwigaeth Cymru, yn cynnal ymweliadau â'r coetir gydol y flwyddyn. Boed yn ymweliad sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, neu'n rhan o raglen Ysgol y Goedwig hwy, caiff sesiynau eu cynllunio'n ofalus i reoli egni'r grŵp ac i sicrhau fod dysgwyr yn elwa i'r eithaf ar eu diwrnod.

Gan ddibynnu ar oedran a gallu, mae'r sesiynau'n amrywio o ran cyflymdra ac yn cynnwys cyfuniad o arddulliau dysgu. Yn nodweddiadol, byddai sesiwn yn dechrau gyda gêm i ymgysylltu dysgwyr ac i annog brwdfrydedd ar gyfer y pwnc. Dilynir hynny gydag amrywiaeth o weithgareddau dysgu cyflym a hwyliog a thasgau tawel a myfyriol, sy'n cynnwys cyfuniad o edrych, gwrando a gwneud.

Mae rhannu'r hyn a ddysgwyd yn rhan bwysig o'r sesiwn: gall gêm arall ddod â'r plant at ei gilydd, atgyfnerthu'r dysgu a bod yn hwyl - i gyd ar yr un pryd.

Mae'r dull gweithredu'n hyblyg, gydag amser wedi'i neilltuo ar gyfer gollwng stêm dros ginio, neu ar gyfer eistedd yn dawel i feddwl a myfyrio. Mae mannau glaswelltog a choediog ger y ganolfan yn llefydd delfrydol ar gyfer y mathau hyn o weithgarwch - a gall y rhai hynny sy'n egnïol iawn wneud defnydd o'r cwrs rhaffau isel os ydynt yn dymuno gwneud hynny!

Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Garwnant

Mae'n wych gweld y plant, a ddaw o gefndiroedd tra gwahanol, yn tynnu ymlaen mor dda gyda'i gilydd ac yn gwneud ffrindiau newydd.

Astudiaeth achos: Dysgu y tu hwnt i'r cwricwlwm

Mae heddwch a llonyddwch ystad Ystangbwll yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cael ei ddeffro'n aml gan sŵn hwyl a gemau wrth i blant gyrraedd i ddysgu yn yr awyr agored. Mae'r ymweliadau yn rhoi cyfle i ysgolion, eu disgyblion a'u teuluoedd o wahanol gefndiroedd diwylliannol, ethnig a chymdeithasol, weithio gyda'i gilydd ar weithgareddau celfyddydol eu natur.

Buan y bydd cyfeillgarwch newydd yn ffynnu rhwng disgyblion, o wahanol ysgolion, wrth iddynt fynd i'r afael ag amrywiol weithgareddau. Mae'r plant yn ymroi o'r cychwyn cyntaf i waith maes cyffrous, sydd hefyd yn addysgol, a rhoddant gynnig ar ffyrdd newydd o ddysg wrth i Ystangbwll anadlu bywyd i'r cwricwlwm ysgolion.

Dywed y staff a fu yno "Mae'n wych gweld y plant, a ddaw o gefndiroedd tra gwahanol, yn tynnu ymlaen mor dda gyda'i gilydd ac yn gwneud ffrindiau newydd. Mae'n amlwg y byddant yn cofio'r anturiaethau a gânt yn Ystangbwll am flynyddoedd i ddod".

Dengys y profiad a gafwyd o bartneriaethau blaenorol fod ysgolion yn parhau i weithio gyda'i gilydd ar ôl i'r prosiectau ddod i ben a'u bod yn meithrin cysylltiadau cadarnhaol gyda'r lleoliad y buont yn gweithio ynddo.

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, canolfan addysg Ystangbwll i ysgolion

Astudiaeth Achos - Cyflwyno amgylcheddau newydd

Yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, rydym yn ceisio datblygu dilyniant o brofiadau amgylcheddol sy'n diwallu anghenion dysgu plant o'r Cyfnod Sylfaen drwodd i'r cyfnod yn dilyn yr ysgol uwchradd. Byddwn hefyd yn ceisio meithrin mewn plant ymdeimlad o les, o le a rhyfeddod mewn lleoliadau naturiol.

Datblygodd Antur Tedwen yn sgil sylweddoli mai prin iawn y caiff llawer o blant ifanc y cyfle i chwarae mewn amgylcheddau fel glaswellt hir, coetir a mwd. Yn wir, gall eu hamlygu i amgylcheddau

o'r fath ar drip undydd, o ymdrin â'r peth mewn modd anaddas, arwain at atgyfnerthu ymdeimlad o anesmwythder neu hyd yn ofn mewn llefydd mor "anarferol".

Mae Antur Tedwen yn gwahodd y plant i ddod â'u tedi bêrs eu hunain i'r Ardd i ymuno â'n Tedi Bêr ni, Tedwen swil, i fod yn gwmni iddi ar daith i ganfod y Pwll Cudd. Ar y daith, mae'r plant yn teithio trwy weunwellt hir, coetir gorchudd caeëdig ac, yn y pen draw, yn canfod y Pwll Cudd sydd wedi'i leinio â chlai. Ar y ffordd, mae'r plant yn cwrdd â phypedau menig sy'n helpu'r Tedis ar eu ffordd. Mae Angus y tarw yn dangos sut i chwilio am fwyd yn y glaswellt hir, mae Samantha'r llwynog yn dangos i blant sut i adeiladu cysgodfan yn y goedwig ac mae Freda'r Llyffant yn dangos i bawb sut i wneud llestr o glai i gasglu dŵr o'r pwll. Erbyn diwedd yr antur mae cân yn datgelu ein bod wedi rhoi popeth y mae'r Tedi Bêrs ei angen iddynt i allu byw yn yr Ardd; bwyd a diod a chysgod.

Ysgolion y Goedwig diolch i Jay Williams

Yn ôl yn yr ysgol, gellir ailberfformio'r antur trwy waith stori ac mae llawer o blant hefyd yn mynd â'u sgiliau newydd adre i chwarae'n fwy creadigol yn eu gerddi eu hunain.

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Astudiaeth Achos: Gweld y darlun cyfan

Mae cynnal sgwrs agoriadol cyn i'r myfyrwyr ddechrau eu gwaith maes yn hanfodol er mwyn rhoi i'r grŵp gyd-destun ehangach i'w gwaith. Yn ein cyflwyniad ni, caiff y myfyrwyr weld y darlun ehangach gan gynnwys cadwraeth, effaith amgylcheddol a threftadaeth naturiol cyn canolbwyntio ar un maes bach yn fanwl ar gyfer eu tasg gwaith maes benodol gan edrych, efallai, ar newid graddol yn y llystyfiant o fewn y twyni dros gyfnod o amser.

Yn y cyflwyniad, rhoddir Ynyslas yng nghyd-destun datblygiad tirwedd dros filoedd o flynyddoedd ac esbonnir ei bod yn parhau i fod yn ardal ddeinamig sy'n newid yn barhaol. Mae'r myfyrwyr yn dysgu beth yw gwerth yr ardal fel cynefin i rywogaethau arbennig o blanhigion ac anifeiliaid, yn lleol ac fel rhan o rwydwaith cenedlaethol a rhyngwladol o ardaloedd cadwraeth. Trwy'r trafodaethau sy'n dilyn ynghylch niferoedd ymwelwyr a chynefinoedd, daw'r myfyrwyr yn ymwybodol o bwysau effeithiau dynol ar y safle hwn yn benodol ac ar gynefinoedd ar raddfa fyd-eang a'r berthynas rhwng ein ffordd ni o fyw a chadwraeth natur. Rhoddir cyd-destun i waith Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) a thrafodir y gwrthdaro a'r problemau sydd i'w rheoli wrth gynnal gwarchodfa a rhai o'r atebion, gan sicrhau'r mynediad eithaf i'r cyhoedd, a mwynhad, gan achosi'r isafswm o ddifrod i ecosystem fregus.

Mae'r cyflwyniad hwn yn rhoi persbectif ac ystyr i ymweliad y myfyrwyr ac yn eu hysbrydoli i ryfeddu at Ynyslas, a chael eu swyno ganddi, gan hau hedyn o gyfrifoldeb dros natur ac uniaethu â hi.

rspb-images.com

Ynyslas, Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi, CCGC

Astudiaeth Achos: Profiad Cyntaf sy'n Llawn Ysbrydoliaeth

Mewn gwarchodfa RSPB, go brin y byddai pobl yn disgwyl dod ar draws grŵp tawel o blant 5 oed sy'n sefyll mewn rhyfeddod gan gydio'n dynn yn eu tlysau arbennig, tra'n gwrando'n astud ar y synau sydd o'u cwmpas. Fodd bynnag, mae'r rhaglen First Nature yn boblogaidd iawn gyda grwpiau Blynyddoedd Cynnar a Chyfnod Sylfaen.

Hau hedyn o gyfrifoldeb dros natur ac uniaethu â hi.

Ffocws ymarferol sydd i weithgareddau'r diwrnod. Mae staff yr RSPB yn annog plant ifanc i fynd ati'n frwd i archwilio'r byd naturiol a meithrin eu hymdeimlad o ryfeddod at y byd hwnnw. Mae plant yn canfod synau, arogl, golygfeydd a gwead eu hamgylchedd. Maent yn edrych yn agos ar yr amrywiaeth enfawr o liw ar balet natur ac yn archwilio gwead cerrig, plu, mwsog a dail.

Yn wahanol i'r tawelwch gynt, gellir clywed synau o foddhad gan y plant wrth iddynt ganfod mwydyn, corryn neu fochyn coed a oedd yn cuddio dan foncyff neu yng nghanol pentwr o ddail, neu wrth iddynt weld ceiliog rhedyn yn y glaswellt hir.

Bydd lefel sŵn y grŵp yn codi'n aml hefyd pan ddaw dŵr i mewn i'r rhaglen. Caiff y plant edrych mewn nentydd neu byllau i weld pwy sy'n byw yn y dŵr. Aiff yr helfa am bysgod a llyffantod yn angof yn aml iawn wrth iddynt ganfod chwilod a nymffau o bob math. Mae'r plant yn dechrau meddwl ym mha ffordd y mae'r pethau y dônt o hyd iddynt yn addas i fyw yn y mannau penodol hynny.

Wrth i'r plant adael, maent yn mynd ag argraff barhaol gyda nhw o ryfeddodau natur: maent yn gadael safle lle mae hwyl a chwerthin yn parhau i atsain

Mae'r plant yn gweithio, yn aml iawn, mewn parau neu grwpiau bach fel bod rhannu a dysgu gweithio gyda'i gilydd, gan rannu'u canfyddiadau, yn rhan hanfodol o'r diwrnod. Wrth i'r plant adael, maent yn mynd ag argraff barhaol gyda nhw o ryfeddodau natur: maent yn gadael safle lle mae hwyl a chwerthin yn parhau i atsain .... yn barod ar gyfer y grŵp nesaf.

RSPB

Dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth
Hydref 2007
Dogfen rhif 022/2007

Gwybodaeth bellach

Gwybodaeth gyffredinol ynghylch pwysigrwydd dysgu yn yr awyr agored

Rickinson et al,	SCYA: Arolwg o Ymchwil ar Ddysgu yn yr Awyr Agored, 2004
www.esdgc.org.uk	Gwefan sy'n cynnig cyfeirlyfr rhithiol i athrawon ynghylch ADCDF

Canllawiau ar iechyd a diogelwch ar gyfer Ymweliadau Addysgol

Canllawiau ac Ymarfer Cenedlaethol - Yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES) - Health and Safety of Pupils on Educational Visits (HASPEV) A Good Practice Guide www.teachernet.gov.uk/wholeschool/healthandsafety/visits

Model Gwybodaeth Diogelwch Generig i leoliadau sydd dan reolaeth ar gael gan swyddogion Iechyd a Diogelwch sirol a Chydlynwyr Ymweliadau Addysgol yr AALl

Mae canllawiau Cymru Gyfan ar gyfer dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth hefyd yn cael eu paratoi gan is-bwyllgor y Panel Cynghori ar Addysg Awyr Agored i Gymru. Cânt eu cyhoeddi yn ystod 2007.

Am ragor o wybodaeth ynghylch yr astudiaethau achos: -

RSPB Cymru	029 2035 3015	www.rspb.org.uk
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	01492 860123	www.nationaltrust.org.uk
Cyngor Astudiaethau Maes	01743 852100	www.field-studies-council.org
CCGC	01970 871640	www.ccw.gov.uk
Menter Addysg y Goedwig	01873 852015	www.foresteducation.org
Comisiwn Coedwigaeth Cymru	0845 604 0845	www.forestry.gov.uk
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	01558 667148	www.gardenofwales.org.uk